# COVID-19 – Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) – Hysbysiad Preifatrwydd

## Diben yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu gennym ni, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, fel sefydliad partner sy'n gweithio gydag eraill, i ddarparu'r elfen olrhain cysylltiadau o wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru. Mae Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer y gwasanaeth cyfan hefyd ar gael yma: www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/TTP_privacy_notice_cy.aspx

Mae olrhain cysylltiadau yn ymagwedd sylfaenol at ymarfer iechyd y cyhoedd, sydd â'r nod o leihau nifer yr achosion eilaidd o glefyd heintus mewn achos a goblygiadau haint mewn achosion dilynol. Mae rhagor o wybodaeth am olrhain cysylltiadau i'w gweld yma www.llyw.cymru/olrhain-cysylltiadau-eich-cwestiynau

Yn ogystal â'r diben o olrhain cysylltiadau, gall eich gwybodaeth hefyd gael ei defnyddio gennym ni neu sefydliadau partner at y dibenion canlynol.

- Deall COVID-19 a risgiau i iechyd y cyhoedd, tueddiadau yn COVID-19 a risgiau o'r fath, a rheoli ac atal lledaenu COVID-19 a risgiau o'r fath
- Nodi a deall gwybodaeth am gleifion neu gleifion posibl sydd â COVID-19 neu sydd mewn perygl o'i gael
- Darparu gwasanaethau i gleifion, clinigwyr, y gwasanaethau iechyd
- Ymchwilio a chynllunio o ran COVID-19 (gan gynnwys y posibilrwydd o gael eich gwahodd i fod yn rhan o dreialon clinigol)
- Monitro cynnydd a datblygiad COVID-19

## Ein manylion cyswllt

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd eich data hefyd yn cael eu prosesu gan un neu ragor o'r sefydliadau partner a restrir isod. Mae gan bob sefydliad partner statws 'Cyd-reolydd Data', sy'n golygu eu bod yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am y data y maent yn eu prosesu, ac rydym i gyd yn rhan o gytundeb sy'n nodi sut a pham yr ydym yn prosesu'r wybodaeth honno.

- Pob un o 22 Awdurdod Lleol Cymru
- Pob un o'r 7 Bwrdd Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Felindre (trwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)

- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer eich Bwrdd Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol eraill drwy fynd i:
http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cyfeiriadur
https://www.wlga.cymru/welsh-local-authority-links

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cymorth, cyngor ac arweinyddiaeth arbenigol ar lefel genedlaethol gyda chymorth Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru sy'n darparu'r platfform digidol. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn trin eich data personol, neu sut y maent yn gweithio gyda phrosesyddion data, gwelwch eu Hysbysiad Preifatrwydd drwy fynd i: https://icc.gig.cymru/defnydd-y-safle/hysbysiad-preifatrwydd/

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn trin eich data personol, neu sut y maent yn gweithio gyda phrosesyddion data, gwelwch eu Hysbysiad Preifatrwydd drwy fynd i: https://gggc.gig.cymru/defnyddior-wefan/polisi-preifatrwydd/

## Y math o wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei chasglu

Os ydych chi wedi cael canlyniad positif i brawf SARS-CoV-2, efallai y byddwn yn casglu ac yn prosesu'r wybodaeth ganlynol amdanoch chi:

- eich enw, dyddiad geni, rhywedd a Rhif GIG,
- data am anabledd ac ethnigrwydd,
- cyfeiriad llawn (gan gynnwys cod post), rhif ffôn a chyfeiriad e-bost,
- eich swydd, lleoliad gwaith, rheolwr llinell a disgrifiad o'ch gwaith,
- enwau, dyddiad geni a manylion cyswllt y sawl sydd yn eich aelwyd ynghyd ag a oedden nhw'n bresennol yn ystod eich cyfnod heintus,
- enwau a manylion cyswllt unrhyw un arall rydych chi wedi dod i gysylltiad â nhw yn ystod eich cyfnod heintus, a
- y lleoedd rydych chi wedi ymweld â nhw yn ystod eich cyfnod heintus.
- unrhyw symptomau COVID-19 a allai fod gennych chi ac a ydych chi wedi bod yn yr ysbyty o ganlyniad i'r symptomau hynny.

Os ydych chi wedi'ch enwi fel rhywun sydd, o bosibl, wedi dod i gysylltiad ag unigolyn sydd wedi cael canlyniad positif i brawf SARS-CoV-2 yn ystod ei gyfnod heintus, efallai y byddwn yn casglu'r wybodaeth ganlynol amdanoch chi:

- eich enw, dyddiad geni, rhywedd a Rhif GIG,
- data am anabledd ac ethnigrwydd,
- cyfeiriad llawn (gan gynnwys cod post), rhif ffôn a chyfeiriad e-bost,
- eich swydd, lleoliad gwaith, rheolwr llinell a disgrifiad o'ch gwaith,
- enwau, dyddiad geni a manylion cyswllt y sawl sydd yn eich aelwyd, ac
- unrhyw symptomau COVID-19 a allai fod gennych chi ac a ydych chi wedi bod yn yr ysbyty o ganlyniad i'r symptomau hynny.

## Sut rydyn ni'n cael gafael ar yr wybodaeth bersonol, a pham mae hi gennym ni

Mae rhywfaint o'r wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei phrosesu yn cael ei darparu i ni yn uniongyrchol gennych chi, neu'ch cynrychiolydd, am y rhesymau canlynol:

- er mwyn gweithredu gwasanaeth olrhain cysylltiadau COVID-19, gan gynnwys cynnig cyngor a chymorth i'r rheiny sydd wedi dod i gysylltiad ag unigolyn sydd wedi cael canlyniad positif i brawf SARS-CoV-2, a threfnu profion SARS-CoV-2 ar gyfer y rheiny sydd yn dangos symptomau COVID-19.

Rydyn ni hefyd yn cael gwybodaeth bersonol yn anuniongyrchol, gan y ffynonellau yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Os ydych chi wedi cael canlyniad positif i brawf SARS-CoV-2, byddai eich canolfan brofi, a weithredir gan un o'r sefydliadau partner, wedi darparu eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad a manylion cyswllt.
- Os ydych chi wedi'ch enwi fel rhywun sydd, o bosibl, wedi dod o gysylltiad ag unigolyn sydd wedi cael canlyniad positif i brawf SARS-CoV-2, byddai'r unigolyn, neu ei gynrychiolydd/cyflogwr, neu sefydliad neu unigolyn arall a all fod â'r wybodaeth berthnasol, wedi darparu eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad a manylion cyswllt.

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), y seiliau cyfreithlon yr ydym yn dibynnu arnynt ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

- Erthygl 6(1)(e) – processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vesting in the controller

Gan fod diogelwch ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer dosbarthiadau penodol o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig' fel gwybodaeth iechyd, rhaid nodi sail gyfreithlon ychwanegol er mwyn prosesu'r dosbarth yma o wybodaeth, fel yr amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

- Erthygl 9(2)(i) – processing is necessary for reasons of public interest in the area of public health

Gall erthyglau cymwys eraill gynnwys (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

- Erthygl 9(2)(g) – processing is necessary for reasons of substantial public interest
- Erthygl 9(2)(h) – processing is necessary for the purposes of preventive or occupational medicine, for the assessment of working capacity of the employee, medical diagnosis, the provision of health or social care or treatment or the management of health or social care systems and services

Cefnogir gwaith prosesu eich data at ddibenion olrhain cysylltiadau gan:

- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
- Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth am Gleifion) 2002
- Deddf y Coronafeirws 2020
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020

## Sut rydyn ni'n storio'ch gwybodaeth bersonol

Mae'ch gwybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Dim ond cyhyd ag y mae ei hangen yr ydym yn ei chadw a phan nad oes ei hangen mwyach, bydd yn cael ei dileu/dinistrio'n ddiogel.

- Bydd y data a gasglwn ar gyfer pobl sydd wedi cael canlyniad positif i brawf COVID-19 yn cael eu cadw am 7 mlynedd
- Bydd y data a gesglir ar gyfer y rhai sydd wedi dod i gysylltiad â phobl â COVID-19 ond nad oes ganddynt unrhyw symptomau yn cael eu cadw am y cyfnod cadw lleiaf o 5 mlynedd.
- Bydd canlyniadau profion a gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw gyflyrau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 hefyd yn cael eu cadw yn eich cofnod iechyd electronig am gyfnod hirach yn unol ag amserlenni cadw arferol y GIG.

## Eich hawliau o ran diogelu data

O dan y gyfraith diogelu data, mae gennych hawliau sy'n cynnwys:

**Eich hawl i fynediad** – Mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol.

**Eich hawl i gywiro** – Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol rydych chi'n meddwl sy'n anghywir. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth rydych chi'n meddwl sy'n anghyflawn.

**Eich hawl i ddileu** – Mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau.

**Eich hawl i gyfyngu ar brosesu** – Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu'ch gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau.

**Eich hawl i wrthwynebu prosesu** – Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu'ch gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau.

**Eich hawl i gludadwyedd data** – Mae gennych yr hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth bersonol rydych chi wedi'i rhoi i ni i sefydliad arall, neu i chi, mewn rhai amgylchiadau.

Does dim angen i chi dalu unrhyw dâl am arfer eich hawliau. Os ydych am gyflwyno cais, cysylltwch â'r sefydliad perthnasol, fel y manylir uchod.

Cysylltwch â'r sefydliad perthnasol, fel y manylir uchod, os ydych am gyflwyno cais.

## Sut i gwyno

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch gwyno trwy gysylltu â'r sefydliad perthnasol, fel y manylir uchod.

Gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn anfodlon ar sut rydyn ni wedi defnyddio'ch data.

Cyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Rhif y llinell gymorth: 0303 123 1113
Gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: https://cy.ico.org.uk